



Llawlyfr llywodraethu ar gyfer aelodau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wreccsam

Mehefin 2019

Bydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Wreccsam yn ymdrechu i fod yn bartneriaeth gadarn a strategol sy'n cyd-gynhyrchu gwell canlyniadau ar gyfer Wreccsam. Bydd mynd ati i wneud pethau'n wahanol yn golygu y bydd cymunedau, budd-ddeiliaid a sefydliadau'n dod ynghyd o amgylch y pum ffordd o weithio (hirdymor, atal, cydweithio, cynnwys ac integreiddio). Bydd cynllun lles y BGC yn galluogi sefydliadau partner i lywio eu cynlluniau busnes tuag at gynaliadwyedd hirdymor

Rheoli fersiynau - rhif a dyddiad	Manylion y diweddariad
V1 Mawrth 2016	
V2 Mehefin 2019	Adolygu'r Cylch Gorchwyl

Arwain y ffordd

BGC Wrecsam fydd yn gyfrifol am arwain y ffordd er mwyn i sefydliadau a chymunedau allu canolbwyntio ar yr hyn y mae angen i ni ei wneud gyda'n gilydd i wella lles ledled Bwrdeistref Sirol Wrecsam, fel y nodir yn y cynllun lles.

Mae'r Cylch Gorchwyl hwn yn rheoli sut y bydd yr aelodau'n cydweithio er budd hirdymor gorau pobl Wrecsam. Mae cytuno i gynrychioli sefydliad ar y BGC yn gyfrifoldeb enfawr i'w rannu. Mae aelodau'r BGC yn ymrwymo i ymddwyn mewn ffordd sy'n onest, yn agored ac yn broffesiynol bob amser, gan gefnogi strwythurau llywodraethu uniongyrchol a sicrhau bod y dulliau hyn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn ateb y gofyn.

Beth fydd y BGC yn ei wneud?

Bydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam yn dod â sefydliadau, budd-ddeiliaid a'r gymuned ynghyd, ac yn:

- Sicrhau bod pob sefydliad partner yn cefnogi twf parhaus mewn lles gydag adnoddau, amser ac egni.
- Sicrhau bod y bobl sy'n eistedd o amgylch y bwrdd yn dod â'r amrediad gorau o graffter, her adeiladol, data ac atebion gyda nhw i'r BGC.
- Dymchwel rhwystrau pan nad yw'r cydweithio'n gwneud digon o gynnydd.
- Darparu ymrwymiad hirdymor gan sefydliadau ac uwch arweinwyr.
- Galluogi sefydliadau i lunio perthynas waith agosach – o fynd yn ôl i'r llawr gwaith i secondiadau i gydgyhyrchu
- Adolygu effeithiolrwydd gweithio mewn partneriaeth amlasiantaeth yn rheolaidd
- Cymryd camau i gyfrannu cymaint ag y gallwn ni i bob un o'r nodau lles
- Sicrhau bod cynlluniau busnes pob partner yn cyfrannu'n amlwg i gynllun lles y BGC
- Cydweithio â sefydliadau eraill ledled Cymru i ddysgu o'u harferion gorau a'u syniadau da.
- Rheoli'r byrddau rhaglenni drwy gynnwys y gymuned wrth lunio'r meysydd blaenoriaeth, a sicrhau mai pobl sy'n gallu cyflawni canlyniadau fydd yn mynd i'r afael â nhw.
- Sicrhau ein bod yn mynd ati i weithio gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Llywodraeth Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru yn ogystal â chyrrff a phartneriaethau rhanbarthol.

Rhoi hyn ar waith

Mae yna bum ffordd o weithio y mae angen i wasanaethau cyhoeddus eu hystyried wrth gynllunio a chyflawni eu gwaith. Bydd dilyn y ffyrdd hyn o weithio o fudd i ni gydweithio'n well, osgoi ail-adrodd camgymeriadau'r gorffennol a mynd i'r afael â rhai o'r heriau hirdymor rydym yn eu hwynebu yma yn Wrecsam.

Mae croesawu'r ffyrdd hyn o weithio wir yn hanfodol i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn Wrecsam, ac mae'n gryn newid i'r ffordd rydym ni wedi bod yn cydweithio yn y gorffennol.

	Beth mae hyn yn ei olygu i ni:
Hirdymor – mae angen i ni weithio mewn ffordd sy'n bodloni ein hanghenion presennol a thymor byr, gan sicrhau ein bod yn creu cynlluniau fydd yn gwella Wrecsam yn yr hirdymor	Canolbwyntio ar sefydlu cyfalaf cymdeithasol ac asedau cymdeithasol yn Wrecsam, er mwyn datblygu ar yr hyn sydd gennym ni. Bod â syniad clir o sut rydym ni eisiau i ben y daith edrych, ac yna torri hynny i lawr yn gerrig milltir er mwyn cyrraedd yno.
Atal - mae angen i ni sicrhau bod ein camau gweithredu'n effeithiol o ran atal problemau rhag codi.	Bydd parhau i drafod beth y mae angen ei wneud i alluogi pobl a chymunedau i fod yn hyderus, yn hapus ac yn gadarn, yn ymgysylltu'n naturiol â phobl ar ddechrau'r broses. Bydd hyn yn sicrhau bod systemau'n datblygu fydd yn cefnogi gwir gydgyhyrchu wrth wraidd dylunio'r gwasanaeth.
Integreiddio – mae angen i ni ddatblygu camau gweithredu sy'n cyfrannu i wahanol nodau lles, er mwyn cael yr effaith fwyaf ar fywydau pobl	Bydd rhannu dulliau o gaffael a chomisiynu, rheoli perfformiad, rheoli risgiau, rheoli asedau, cynllunio'r gweithlu a chynllunio corfforaethol yn arwain at amrywiol fuddiannau. Bydd cyflawni'r hanfodion yn dda yn golygu y bydd y cynllun lles wrth wraidd yr hyn y mae pob un o bartneriaid BGC yn ei wneud.
Cydweithio - dylem gydweithio i ddatblygu ein ffordd ymlaen	Canolbwyntio ar bartneriaethau effeithiol sy'n edrych tuag allan ac yn dylanwadu'n genedlaethol ac yn rhanbarthol. Adolygu sut rydym ni'n gweithio, fel nad ydyn ni'n boddi mewn prosesau, gweithdrefnau, is-grwpiau a systemau presennol.
Cynnwys - dylem gydweithio â phobl a chymunedau i ddatblygu a chyflawni ein camau.	Dod i adnabod ein cymunedau, eu hasedau a'u hanghenion yn iawn drwy dystiolaeth, straeon, hanesion, a phrofiad byw. Gweithio'n gyflym, canolbwyntio'r camau cywir ar y bobl gywir a sicrhau bod y bobl sydd yn y sefyllfa orau'n cael eu cynnwys.

Cyflawni pethau – ein tîm amlasiantaeth (TA)

Caiff y BGC ei gefnogi gan dîm rheoli fydd yn:

- Helpu datblygu dealltwriaeth gyfredol o'r pum ffordd o weithio
- Sicrhau bod y BGC yn cadw safonau uchel o ran llywodraethu ac atebolrwydd
- Sicrhau bod y byrddau rhaglenni perthnasol yn gwneud cynnydd o ran cyflawni eu camau gweithredu
- Codi ymwybyddiaeth o swyddogaeth BGC Wreccsam
- Cefnogi datblygiad gweithio mewn partneriaeth ymysg sefydliadau'r BGC
- Gwneud y BGC yn gydnaws â strwythurau llywodraethu eraill ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol
- Sicrhau bod y BGC yn ymateb i unrhyw geisiadau gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Llywodraeth Cymru neu bwyllgor craffu perthnasol CBSW.

Bydd y TA yn cefnogi arloesi drwy:

- Weithredu fel herwyr/tarfwr/ addaswyr systemau
- Canfod, ymchwilio i, ac amlygu syniadau a thystiolaeth
- Amlygu cyfleoedd i sefydliadau partner integreiddio (atebion cyflym a phrosiectau tymor hwy)
- Nodi pwy y gallwn ni gydweithio â nhw ar lefel ranbarthol
- Rheoli ein sylfaen dystiolaeth
- Rheoli ein hymgyngoriad parhaus gyda'r cyhoedd
- Adrodd ar gynnydd yn erbyn dangosyddion i'r BGC a thrigolion Wreccsam
- Cynhyrchu adroddiad blynyddol ar y cynllun lles

Bydd y TA yn sicrhau y bydd partneriaid y BGC yn cydweithio i:

- Sicrhau mai camau ataliol yw canolbwynt clir heriau polisi
- Adolygu ein dull amlasiantaeth o weithio a rhannu a datblygu arferion da.
- Mapio, datblygu a gweithredu dulliau atgyfeirio – o rannu gwybodaeth ar lefel isel i bartneriaethau ffurfiol
- Sicrhau bod y gwaith amlasiantaeth wedi'i strwythuro o amgylch y pum ffordd o weithio

Bydd y TA yn diweddarau'r llawlyfr hwn bob blwyddyn

Y Cylch Gorchwyl¹

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Wrecsam yn gorff statudol a sefydlwyd ar 1 Ebrill 2016 o ganlyniad i fabwysiadu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

1	Pwrpas
	Pwrpas y Bwrdd yw gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Bwrdeistref Sirol Wrecsam.
	Bydd yn gwneud hyn drwy alluogi Cynllun Lles Wrecsam, fydd yn cyfrannu cymaint ag sy'n bosib i'r saith nod lles cenedlaethol: <ul style="list-style-type: none">• Cymru lewyrchus• Cymru gydnerth• Cymru iachach• Cymru sy'n fwy cyfartal• Cymru o gymunedau cydlynus• Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu• Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
	Datblygiad cynaliadwy yw'r egwyddor bwysicaf yng ngweithgareddau BGC Wrecsam. Golyga hyn bod angen gweithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion presennol yn cael eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Bydd y BGC yn sicrhau bod popeth y mae'n ei wneud yn cael ei arwain gan y pum ffordd o weithio (hirdymor, atal, cynnwys, cydweithio ac integreiddio)
2	Aelodaeth
	Yn ogystal â'r pedwar aelod statudol a ddiffinnir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) ² , gall BGC Wrecsam wahodd cynrychiolwyr ymysg partneriaid sydd â budd materol yn lles Wrecsam wrth gyflawni cynllun lles y BGC. ³
	Rhestrir y sefydliadau sy'n rhan o'r BGC ar hyn o bryd ar ddiwedd y llawlyfr hwn, a chytunir ar hyn bob blwyddyn. Er mwyn darparu prosiectau lles newydd, gallai hyn olygu bod pobl arbenigol ychwanegol yn ymuno â'r Bwrdd am gyfnod penodol.

¹ Mae'r cylch gorchwyl hwn wedi cael ei lunio i adlewyrchu Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol, sef y canllawiau statudol ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (SPSF3: Rôl gyfunol, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus), a chytunwyd arnyn nhw yng nghyfarfod cyntaf BGC Wrecsam ar 16 Mehefin 2016.

² Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru

³ Cyngorau Cymuned a Thref, Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cyngorau Iechyd Cymuned, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE), Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, Sefydliadau Addysg Uwch neu Addysg Bellach, Cyngor Celfyddydau Cymru, Cyngor Chwaraeon Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Cyngorau Gwirfoddol Sirol.

	Mae gan bob sefydliad bleidlais gyfartal, a byddant yn cael eu cynrychioli gan un cynrychiolydd neu ddirprwy gydag awdurdod dirprwyedig i wneud penderfyniadau.
	Efallai y bydd angen swyddog ychwanegol o sefydliad partner i fynychu cyfarfodydd er mwyn cefnogi eu cynrychiolydd enwebedig, fel y gwelo Cadeirydd y BGC yn ddoeth.
3	Cworwm
	Rhaid i bedwar aelod statudol y BGC fod yn bresennol mewn cyfarfod BGC iddo gael cworwm.
4	Cyfarfodydd Gorfodol
	Bydd y BGC yn cynnal “cyfarfod gorfodol” wedi'i gadeirio gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ddim hwyrach na 60 diwrnod ar ôl pob etholiad cyffredin o Gynghorwyr.
5	Rolau a Chyfrifoldebau
	Bydd y Cylch Gorchwyl yn cael ei gytuno ar y cyd yn y cyfarfod blynyddol.
6	Cadeirydd a Dirprwy
	Bydd aelodau'r BGC yn penodi Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yn y cyfarfod gorfodol
	Bydd y Cadeirydd yn gyfrifol am: <ul style="list-style-type: none"> • sicrhau bod y BGC yn cyfrannu i'r rhaglen ranbarthol a strategol • sicrhau bod cyfarfodydd y BGC yn effeithiol, yn fuddiol ac yn brydlon • arwain y TA i wneud yn siŵr bod y llywodraethu'n gadarn • sicrhau bod cynllun gwaith y BGC yn cael ei gyflawni • cydweithio â swyddog y BGC i gydlynu sut y bydd y BGC yn cyflawni camau'r cynllun lles •
	Bydd y Dirprwy yn: <ul style="list-style-type: none"> • Cymryd lle'r Cadeirydd yn ôl y gofyn yng nghyfarfodydd y BGC yn ogystal ag mewn cyfarfodydd allanol • Cydlynu gwaith y Byrddau Rhaglenni i sicrhau eu bod ar y trywydd cywir i gyflawni camau'r cynllun lles
	Bydd y Cadeirydd a'r Dirprwy'n cynnal rhag-gyfarfod cyn pob un o gyfarfodydd y BGC.
	Mae disgwyl i bob partner fod yn Gadeirydd ar ryw bwynt, nid y partneriaid statudol yn unig.
	Bydd y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd yn gwasanaethu am gyfnod o dair blynedd ar y mwyaf.
	Nid oes gofyn i'r Dirprwy Gadeirydd gael ei ethol yn awtomatig yn Gadeirydd, ond bydd gan y Bwrdd broses weithredol o gynllunio ar gyfer olyniaeth, fel nad yw'r Cadeirydd a'r Dirprwy yn rhoi'r gorau iddi ar yr un pryd.

7	Gweddill yr aelodau
	<p>Mae cyfrifoldeb ar weddill aelodau'r BGC i:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Chwarae rhan weithredol yng nghyfarfodydd y BGC, gan wneud cyfraniad effeithiol i gynllun gwaith y BGC • Ymrwymo i'r hyfforddiant a datblygiad personol sydd ei angen i weithio'n wahanol • Datblygu'r cysylltiadau rhwng eu sefydliad nhw â chynllun lles y BGC
8	Cyfarfodydd Arferol
	<p>Cynhelir cyfarfodydd arferol BGC Wrecsam o leiaf bedair gwaith y flwyddyn (tuag unwaith bob tri mis calendr).</p>
	<p>Bydd pob cyfarfod yn ystyried, ond ddim yn gyfyngedig i'r eitemau canlynol ar y rhaglen:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Croeso ac ymddiheuriadau • Cofnodion y cyfarfod diwethaf • Cynnydd ar yr amcanion lles • Cynlluniau gwaith i'r dyfodol •
9	Y Cyfarfod Adolygu Blynyddol
	<p>Bydd y Cadeirydd yn gwneud cais dros e-bost am enwebiadau i rolau'r Cadeirydd a'r Dirprwy fis cyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.</p>
	<p>Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei gynnal ym mis Mehefin bob blwyddyn, a bydd y canlynol yn cael eu cymeradwyo:</p> <ul style="list-style-type: none"> • y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd • unrhyw newidiadau i'r Cylch Gorchwyl • presenoldeb, blaenoriaethau, aelodaeth y byrddau rhaglenni, adnoddau, hyfforddiant a datblygiad, yr adroddiad blynyddol
10	Presenoldeb
	<p>Bydd cofrestr yn cael ei chymryd ym mhob un o gyfarfodydd y BGC ac yn cael ei chyhoeddi yn y cyfarfod adolygu blynyddol, yn ogystal â'i gosod ar wefan y BGC fel rhan o'r cofnodion.</p>
11	Blaenoriaethau
	<p>Bydd y cyfarfod adolygu blynyddol yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • adolygu cynnydd a chytuno ar flaenoriaethau a llwyth gwaith y flwyddyn sydd i ddod. • adolygu effeithiolrwydd y byrddau rhaglenni • penderfynu a oes angen ailgyfeirio camau o fewn cynlluniau gweithredu
12	Byrddau rhaglenni
	<p>Bydd y byrddau rhaglenni'n cyflawni'r camau lles sydd eu hangen ar gyfer pob blaenoriaeth a ddewisir. Cyfrifoldeb y Bwrdd Rhaglen fydd ei drefnu ei hun a defnyddio'r ffyrdd priodol o weithio i gyflawni'r canlyniadau bwriadedig.</p>
	<p>Rhaid i bob un o fyrddau rhaglenni BGC Wrecsam gynnwys o leiaf un aelod o'r BGC, fydd yna'n rhoi adborth ar y cynnydd yng nghyfarfodydd chwarterol y BGC</p>

13	Adnoddau
	CBSW sy'n gyfreithiol gyfrifol am ddarparu cefnogaeth graidd i'r BGC. Diffinnir hyn fel sicrhau bod y bwrdd yn cyfarfod yn rheolaidd, paratoi'r rhaglenni a chomisiynu papurau, rheoli presenoldeb, sicrhau bod yr adroddiad blynyddol yn cael ei gynhyrchu a pharatoi unrhyw dystiolaeth y bydd Pwyllgor Craffu perthnasol CBSW yn gofyn amdani.
	Bydd y BGC yn cytuno sut i ddarparu adnoddau i'r Tîm Amlasiantaeth a'r byrddau rhaglenni yn y cyfarfod adolygu blynyddol.
	Bydd partneriaid y BGC yn cytuno ar gynllun adnoddau ar y cyd i helpu cyflawni camau'r cynllun lles. Mae hyn yn ogystal â chostau bob dydd y BGC. Bydd lefel yr adnoddau amser – ariannol, cyfatebol ac mewn nwyddau yn cael ei adolygu a'i gytuno bob blwyddyn.
14	Hyfforddiant a Datblygiad
	Bydd y TA yn cydweithio â'r BGC i sicrhau bod cyfleoedd hyfforddi a datblygu ar gael i aelodau'r Bwrdd.
	Bydd cofrestr hyfforddiant yn cael ei chadw, fydd yn amlinellu'r cyfleoedd i ddatblygu sydd ar gael i aelodau'r Bwrdd, yn ogystal â phresenoldeb mewn hyfforddiant gorfodol.
15	Cynnwys Dinasyddion
	Mae ffocws y BGC ar y dinesydd yn golygu y bydd yn llunio perthynas fwriadus gyda phobl a chymunedau'r ardal, gan gynnwys plant a phobl ifanc, siaradwyr Cymraeg ac unigolion â nodweddion a ddiogelir, ym mhob agwedd o'i waith. Bydd y BGC a'r byrddau rhaglenni'n cydgynhyrchu cynlluniau cyflawni gyda'r cymunedau perthnasol gymaint ag y bo modd.
	Gellir gwahodd partïon â diddordeb i wneud cyflwyniadau i'r BGC ar unrhyw eitemau sy'n cael eu hystyried. Bydd y BGC yn gofalu ei fod yn sicrhau priodoldeb a didueddrwydd ym mhrosesau'r bwrdd, a'i fod yn ymwybodol o'r perygl y gellid amgyffred bod grŵp penodol yn cael gormod o fynediad at, neu ddylanwad ar drafodaethau'r bwrdd.
	Bydd y BGC yn cymryd camau ychwanegol y tu allan i gyfarfodydd i sicrhau bod llais y cyhoedd yn cael ei glywed, ac yn helpu cyflawni'r cynllun lles. Gwneir hyn drwy i bartneriaid gyfrannu i'r broses ymgynghori a arweinir gan CBSW
	Bydd y BGC yn cael ei graffu drwy Bwyllgor Craffu Cwsmeriaid, Perfformiad, Adnoddau a Llywodraethu'r Cyngor, ac mae'r broses hon yn darparu llwybr pellach i ymgysylltiad cyhoeddus.
16	Adroddiadau Blynyddol
	Bydd y BGC yn paratoi ac yn cyhoeddi adroddiad yn ddim hwyrach na 14 mis ar ôl cyhoeddiad ei gynllun lles lleol cyntaf. Bydd hyn yn galluogi'r BGC i adrodd ar weithgarwch blwyddyn lawn.
	Ar ôl hyn, bydd y BGC yn cyhoeddi adroddiad blynyddol yn ddim hwyrach na blwyddyn ar ôl cyhoeddiad pob adroddiad blaenorol.

	Yn y flwyddyn yn dilyn etholiad llywodraeth leol arferol, pan fydd cynllun lles lleol newydd yn cael ei baratoi a'i gyhoeddi, ni fydd y BGC yn cynhyrchu adroddiad blynyddol.
	Bydd yr Adroddiad Blynyddol yn nodi'r camau a gymerwyd ers cyhoeddi cynllun lles lleol mwyaf diweddar y BGC i ddiwallu'r amcanion a nodwyd yn y cynllun. Gall hefyd gynnwys unrhyw wybodaeth arall y mae'r BGC yn ei ystyried yn briodol.
	Bydd copi o Adroddiad Blynyddol BGC Wrecsam yn cael ei anfon i Weinidogion Cymru, y Comisiynydd, Archwilydd Cyffredinol Cymru a Phwyllgor Craffu Cwsmeriaid, Perfformiad, Adnoddau a Llywodraethu Cyngor Wrecsam.
17	Craffu
	Rôl y pwyllgor craffu yw cynnig her a chefnogaeth er mwyn sicrhau gwelliant parhaus i BGC Wrecsam.
	Er mwyn sicrhau atebolrwydd democrataidd, mae gofyn i bwyllgor craffu llywodraeth leol dynodedig yr awdurdod lleol perthnasol graffu ar waith y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r Cyngor wedi rhoi'r cyfrifoldeb cyffredinol am graffu'r BGC i'r Pwyllgor Craffu Cwsmeriaid, Perfformiad, Adnoddau a Llywodraethu (y Pwyllgor Craffu CPALI).
	Mae'r Pwyllgor Craffu CPALI a'r BGC wedi cytuno ar brotocol ar gyfer craffu'r BGC. Mae'r trefniadau lleol hyn yn galluogi'r BGC i ddirprwyo ei waith mewn perthynas â'i flaenoriaethau Lles i'r pwyllgorau craffu priodol.
	Gall y pwyllgorau craffu ofyn i unrhyw un o aelodau'r BGC roi tystiolaeth, ond dim ond mewn perthynas ag arfer cyd-swyddogaethau a roddwyd iddynt fel aelod o BGC Wrecsam.
	Rhaid i'r pwyllgor(au) craffu anfon copi o unrhyw adroddiad neu argymhelliad y mae'n ei wneud i Weinidogion Cymru, y Comisiynydd ac Archwilydd Cyffredinol Cymru.
	Mae gan Weinidogion Cymru'r grym i atgyfeirio cynllun BGC i'r pwyllgor craffu lleol os yw'n ystyried ei fod yn annigonol. Er enghraifft, oherwydd adroddiad anffafriol gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru neu bryder nad yw'r dyletswyddau statudol yn cael eu cyflawni.
18	Llywodraethu ac Atebolrwydd
	Er bod rhaid i BGC Wrecsam adolygu'r cylch gorchwyl hwn yn y cyfarfod gorfodol, bydd y BGC hefyd yn adolygu ac yn cytuno ar y cylch gorchwyl bob blwyddyn.
	Os bydd anghydfod rhwng yr aelodau, cyfrifoldeb y Cadeirydd yw cyfryngu cytundeb a sicrhau ei fod yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y BGC neu mewn cyfarfod arbennig os oes angen.
	Bydd y TA yn diweddarau cofrestr risg y BGC ac yn adrodd ar hyn yn flynyddol i Bwyllgor Craffu CBSW, ar yr un pryd â'r adroddiad blynyddol.

Pwy sy'n aelod o BGC Wrecsam?

		2019/20	Cadeirydd Dirprwy	Statudol
1	Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam	John Gallanders		
2	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Gary Doherty Rob Smith		S
3	Coleg Cambria	Sue Price		
4	Yr Adran Gwaith a Phensiynau	Lynne Moore Amanda Aldridge		
5	CEM Berwyn			
6	Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol	Andy Jones Claire Mooney		
7	Cyfoeth Naturiol Cymru	Lyndsey Rawlinson Mark Hughes	C	S
8	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru	Simon Smith		S
9	Heddlu Gogledd Cymru	Mark Pierce		
10	Iechyd Cyhoeddus Cymru	Angela Tinkler Rebecca Masters		
11	Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru	Judith Magaw		
12	Llywodraeth Cymru	Sioned Rees		
13	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	Y Cynghorydd Hugh Jones Ian Bancroft Ian Roberts	D	S
14	Prifysgol Glyndŵr Wrecsam	Nina Ruddle		